

ARN CHORN-POND



YMDIRIEDOLAETH
DIWRNOD COFIO'R
HOLOCAST

Ganwyd Arn Chorn-Pond yn 1966 yn Battambang, ail ddinas fwyaf Cambodia, yn neddwyrain Asia. Pan feddianwyd Cambodia gan y Khmer Rouge, anfonwyd Arn gyda channoedd o blant eraill i wersyll carchar. Goroedd trwy roi adloniant i filwyr ar ei ffliw.



Rwy'n dod o deulu o berfformwyr; fi yw'r unig un sydd ar ôl'

©http://www.usd.edu/press/news/images/releases/Arn_Chorn-Pond.jpg

Ganwyd Arn Chorn-Pond i deulu o berfformwyr a cherddorion oedd yn rhedeg theatr fach yn ail ddinas fwyaf Cambodia, Battambang.

Roedd yn 11 oed pan ddaeth y Khmer Rouge i rym yn Cambodia yn 1975 ac erbyn 1979 dienyddiwyd bron dwy filiwn o bobl, chwarter y boblogaeth neu buon nhw farw o newyn, arteithio neu o glefydau heb eu trin.

Gwahanwyd Arn o'i deulu a chafodd ei orfodi i gerdded i un o'r gweryslyoedd gwaith niferus a sefydlwyd ledled Cambodia. Daeth yn llafurwr gorfodol wrth lunio [iwtopia amaethyddol Pol Pot](#).

Dechreuodd yr erchylltra ar y daith gerdded gyntaf oll, gydag eiddo fu unwaith yn annwyl i bobl yn cael ei adael yn y ffordd, prinder bwyd a phobl yn dechrau marw. Meddai Arn, 'Mewn un diwrnod gall person arfer gyda gweld cyrff marw'.

'Maen nhw'n cwmpo a byth yn codi eto. Drosodd a throsodd byddwn yn dweud un peth wrthyf fy hun: paid byth a chwmpo.'

Roedd gwerysll Arn mewn ardal teml y newidiodd y Khmer Rouge yn 'fan lladd' lle y gorfodwyd 700 o blant tuag oedran Arn i weithio o 5am hyd ganol nos heb fwyd.

'Roeddem yn newynu', meddai Arn 'Bydden nhw'n dod tair neu bedair gwaith y dydd i ladd pobl a'n gorfodi i wyllo. Cefais fy ngorfodi i wthio pobl i feddi. Os na fyddech yn gwneud yr hyn roedd y Khmer Rouge yn dweud wrthyf ei wneud, bydden nhw'n eich lladd chi hefyd.'

'Yn ystod fy nghyfnod yn y deml, yng nghanol yr holl ladd, roedd y Khmer Rouge yn ein gorfodi i ganu cerddoriaeth', meddai Arn. 'Dywedon nhw wrthym eu bod am ddechrau dosbarth cerdd a gofyn pwy fyddai'n hoffi chwarae. Felly codais fy llaw gan fy mod yn gwybod pe bawn i'n dod yn gerddor bydden nhw'n rhoi mwy o fwyd i mi. Ac roeddwn yn gwybod fod gen i ddawn arbennig.'

Dysgodd Arn yn gynt na'r plant eraill, 'Aeth tri o'r plant eraill nad oedd yn gallu dysgu mor gyflym, i'r llwyn orenau, fel llawer o'r bobl eraill y lladdodd y Khmer Rouge'. Gadawyd meistr Arn, na chafodd fyth ddysgu ei enw, i'w dysgu am bum diwrnod cyn iddo orffen yn y llwyn orenau hefyd.



Gyda marwolaeth o'i amgylch, goroesodd Arn, nid fel dioddefwr yn unig, ond fel milwr y Khmer Rouge hefyd. Fel cymaint o'r tramgwyddwyr eraill o drais y gyfundrefn, dewis Arn oedd lladd neu gael ei ladd. Yn 1979, pan feddianwyd Cambodia gan y Fietnamaid, meddai Arn 'Rhoddwyd gwn i mi gan y Khmer Rouge fel miloedd o blant eraill a chael dweud y dylwn ymladd'.

'Cawsom ein defnyddio fel tariannau dynol', meddai Arn. 'Roeddwn yn rhan o'r rhyfel hwnnw, rhyfel go iawn, am flwyddyn fwy na thebyg ac yna dihangais i jyngl Cambodia a thros y ffin i Wlad y Tai.

'Roeddwn yn anymwybodol yn y llwyni pan ddaeth pump neu chwech o ferched o hyd i mi a'm cludo i wersyll ffoaduriaid.'

Yn y gwrsyll ffoaduriaid yng Ngwlad y Tai y daeth Peter Pond, gweinidog Lwtheraidd a gweithiwr cymorth, o hyd i Arn a'i fabwysiadu. Yn 1980 aeth Peter ag Arn i'r Unol Daleithiau lle y brwydrodd i ddechrau gyda hynodweddau diwylliant America, ond gydag anogaeth ei deulu mabwysiedig, daeth Arn o hyd i'w lais - i'r fath raddau, mae'n cael ei ystyried yn areithiwr ac yn ymgyrchwr dros gyfiawnder a hawliau dynol mawr ei barch ac ysbrydoledig.

Yn ystod cyfnod y Khmer Rouge, ei allu i ganu'r fflwt helpodd i gadw Arn yn fyw. Heddiw, mae'n dweud bod plant Cambodia yn dod i fyd fyddai heb gerddoriaeth oni bai y gwneir ymdrechion i'w chadw. 'O leiaf', meddai, 'bydd ganddyn nhw gerddoriaeth yn eu bywydau.'

Heddiw mae Arn Chorn Pond yn byw yn Cambodia.

I gael rhagor o wybodaeth:

- Darllenwch am yr [Hil-laddiad yn Cambodia](#) ar wefan HMDT
- *A Song for Cambodia*, Michelle Lord, 2008
- *Never Fall Down*, Patricia McCormick, 2013
- 'An Interview with Arn Chorn-Pond: Helping Children in Cambodia Through the Revival of Traditional Music and Art', gan Arn Chorn-Pond a Michael Ungar yn, *The Social Ecology of Resilience: A Handbook of Theory and Practice*
- *The Flute Player*, Dir. Jocelyn Glatzer, 2003
- [Gwefan Arn](#)
- ['Cambodian played flute to escape death in Khmer Rouge labour camp'](#), BBC, 6 Mai 2013
- [Cambodian Living Arts](#)
- [Cwestiynau a ofynnir yn aml](#) ynghylch llyfr Patricia McCormick *Never Fall Down*
- ['Cambodian brings story of genocide to younger audience.'](#) Boston Globe, 8 Tachwedd 2012